# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Cyffredinol*

### 26 Cyflwyniad a dehongli

(1) Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cwricwlwm i unrhyw un o'r canlynol—

(a) disgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) disgyblion cofrestredig mewn ysgol feithrin a gynhelir;

(c) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

(2) Mae Pennod 4 yn nodi eithriadau i'r dyletswyddau gweithredu cwricwlwm yn y Bennod hon.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon ac ym Mhennod 4 at ysgol yn gyfeiriadau—

(a) at ysgol a gynhelir, neu

(b) at ysgol feithrin a gynhelir.

(4) Yn y Bennod hon ac ym Mhennod 4—

(a) mae cyfeiriadau at ddisgyblion, mewn perthynas ag ysgol, yn gyfeiriadau at ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) mae cyfeiriadau at blant, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer;

(c) mae cyfeiriadau at y cwricwlwm mabwysiedig, mewn perthynas ag ysgol, yn gyfeiriadau at y cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 11 gan bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol (ac os diwygir y cwricwlwm hwnnw o dan adran 12, at y cwricwlwm fel y'i diwygir);

(d) mae cyfeiriadau at y cwricwlwm mabwysiedig, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at y cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 15 gan ddarparwr yr addysg (ac os diwygir y cwricwlwm hwnnw o dan adran 16, at y cwricwlwm fel y'i diwygir).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 26 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(b), **Atod.**

**I3** A. 26 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(b)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cyffredinol.